Ysgol Harri Tudur
Henry Tudor School

Learners Today, Leaders Tomorrow Dysgwyr Heddiw, Arweinwyr Yfory

Headteacher/Pennaeth
Mrs Fiona E.J. Kite
BA(Hons), PGCE, CLT, FoCT, NPQH

Deputy Headteachers/
Dirprwy Benaethiaid
Mr A Barlow
BSc (Hons), MSc, PGCE, NPQH
Mr T Crichton
BA (Hons), PGCE

Assistant Headteachers/
Penaethiaid Cynorthwyol
Mrs A Andrews
BA (Hons), PGCE, Dip SpEd AMBDA, Cert PT, MBPS
Mr R Ellis
BSc (Hons), PGCE
Mrs A James
BSc (Hons), PGCE
Mrs S Smith
BA (Hons), MA, PGCE

Business Manager/Rheolwr Busnes
Mr N Makin OBE
BSc (Hons), MA

Annwyl Rieni,

Ynghylch: Eich hawl i ofyn am gyfarfod â Chorff Llywodraethu yr ysgol

Roedd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn dileu'r gofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol â rhieni. Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd i alluogi rhieni i wneud cais am hyd at 3 chyfarfod mewn unrhyw flwyddyn ysgol â chorff llywodraethu, am faterion sy'n peri pryder iddynt.
Os bydd rhieni'n dymuno defnyddio eu hawliau o dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 amod:

1. Bydd angen i rieni lunio deiseb o blaid cynnal cyfarfod
Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol/30 o ddisgyblion cofrestredig (pa un bynnag yw'r isaf) lofnodi'r ddeiseb. Gallaf ddarparu canllawiau, os gofynnid am hynny, ar sut i lunio deiseb bapur neu electronig. Peidiwch â dechrau deiseb heb gael y canllawiau hyn.

2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol
Ni ellir galw'r cyfarfod i drafod materion er enghraifft cynnydd disgyblion unigol, neu i wneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu'r corff llywodraethu.

3. Gall uchafswm o 3 chyfarfod gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ysgol
Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni ddefnyddio eu hawliau i wneud cais am hyd at 3 chyfarfod â chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol
Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn amod bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan ddaw'r ddeiseb i law fel y gellir cynnal y cyfarfod. Mae "diwrnod ysgol" yn golygu diwrnod pan fydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion.

Dylid anfon unrhyw ddeiseb sy'n gwneud cais am gyfarfod â chorff llywodraethu yr ysgol hon at Gadeirydd y Corff Llywodraethu yng nghyfeiriad yr ysgol.

Mae rhagor o gyngor ar sut y gall rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod â chorff llywodraethu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, yma:

http://gov.wales/docs/dcells/publications/130503-statutory-guidance-parents-meetings-cy-v2.pdf

Paul Culyer
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Pembroke/Penfro SA71 4RL
Tel/Ffôn: 01646 682461
Email/E-bost: contact@yht.wales
www.yht.wales
@YsgolHT